



## CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

### OFFERYNNAU STATUDOL

**2003 Rhif 3072 (Cy.294)**

### **LLYWODRAETH LEOL, CYMRU**

Rheoliadau Pwyllgor Pysgodfeydd  
Môr De Cymru (Ardollau)  
2003

### **NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn rhoi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru y pŵer i wneud Rheoliadau mewn perthynas â chyrff ardolli sydd yn cynnwys y Pwyllgor ar gyfer Ardal Pysgodfeydd Môr De Cymru. Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adrannau 74 a 143 o Ddeddf 1988.

Mae Gorchymyn Ardal Pysgodfeydd Môr De Cymru (Amrywio) 2003 (O.S. Rhif 2003/3036 (Cy.284)) (y Gorchymyn) yn tynnu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf o'r Pwyllgor hwnnw gydag effaith o 31 Mawrth 2003. Mae'r Pwyllgor eisiores wedi cyflwyno ardollau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2003-2004.

Mae'r Rheoliadau hyn yn caniatáu i Bwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru gyflwyno ardollau a amnewidiwyd i'w Gyngorau Cyfansoddol ac i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf am y flwyddyn ariannol honno. Fe fydd yr ardollau newydd hyn yn cymeryd lle'r rhai a gyflwynwyd yn gynharach. Yn achos Rhondda Cynon Taf, fe fydd yr ardoll a amnewidiwyd yn ddim tra bydd y ffigurau ar gyfer y cyngorau eraill yn cael eu haddasu'n unol â'r Gorchymyn.

## NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

### STATUTORY INSTRUMENTS

**2003 No. 3072 (W.294)**

### **LOCAL GOVERNMENT, WALES**

The South Wales Sea Fisheries Committee (Levies) Regulations 2003

### **EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Regulations)*

The Local Government Finance Act 1988 gives the National Assembly for Wales power to make Regulations in relation to levying bodies which include the Committee of the South Wales Sea Fisheries District. These Regulations are made under sections 74 and 143 of the 1988 Act.

The South Wales Sea Fisheries District (Variation) Order 2003 (S.I. No. 2003/3036 (W. 284)) (the Order), removes Rhondda Cynon Taf County Borough Council from that Committee with effect from 31st March 2003. The Committee has already issued levies for the financial year 2003-2004.

These Regulations permit the South Wales Sea Fisheries Committee to issue substituted levies to its Constituent Councils and to Rhondda Cynon Taf County Borough Council for that financial year. These new levies will replace those previously issued. In the case of Rhondda Cynon Taf the substituted levy will be nil whilst for the other councils the figures will be adjusted in line with the Order.

**2003 Rhif 3072 (Cy.294)**

**LLYWODRAETH LEOL,  
CYMRU**

Rheoliadau Pwyllgor Pysgodfeydd  
Môr De Cymru (Ardollau)  
2003

*Wedi'u gwneud*                    *26 Tachwedd 2003*

*Yn dod i rym*                    *30 Tachwedd 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 74(2) a (3) a 143(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(a) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru (Ardollau) 2003 a deuant i rym ar 30 Tachwedd 2003.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn, oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall-

ystyr "y Cynghorau Cyfansoddol" ("the Constituent Councils") yw Cyngor Sir Abertawe, Cyngor Sir Caerdydd, Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Penfro, Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr;

ystyr "y Gorchymyn" ("the Order") yw Gorchymyn Ardal Pysgodfeydd Môr De Cymru (Amrywio) 2003(b);

ystyr "y Prif Reoliadau" ("the Principal Regulations") yw Rheoliadau Cyrff Ardolli (Cyffredinol) 1992(c);

**2003 No. 3072 (W.294)**

**LOCAL GOVERNMENT,  
WALES**

The South Wales Sea Fisheries Committee (Levies) Regulations 2003

*Made*                                    *26th November 2003*

*Coming into force*                    *30th November 2003*

The National Assembly for Wales in exercise of the powers conferred on it by sections 74(2) and (3) and 143 (1) of the Local Government Finance Act 1988(a) hereby makes the following Regulations:

**Name and commencement**

**1.** These Regulations are called the South Wales Sea Fisheries Committee (Levies) Regulations 2003 and come into force on 30th November 2003.

**Interpretation**

**2.** In these Regulations, unless the context otherwise requires -

"the Committee" ("y Pwyllgor") means the South Wales Sea Fisheries Committee established under the Sea Fisheries Regulation Act 1966(b);

"the Constituent Councils" ("y Cynghorau Cyfansoddol") means Cardiff County Council, Carmarthenshire County Council, Pembrokeshire County Council, Swansea County Council, Bridgend County Borough Council, Neath Port Talbot County Borough Council and the Vale of Glamorgan County Borough Council;

"the Order" ("y Gorchymyn") means the South Wales Sea Fisheries District Variation Order 2003(c);

---

(a) 1988 p.41. Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 74 a 143 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosgwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(b) O.S. 2003/3036 (Cy. 284).

(c) O.S. 1992/2903.

(a) 1988 c.41. The powers of the Secretary of State under sections 74 and 143 were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(b) 1966 c.38.

(c) S.I. 2003/3036 (W.284).

ystyr "y Pwyllgor" ("the Committee") yw Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru a sefydlwyd o dan Ddeddf Rheoleiddio Pysgodfeydd Môr 1966(a); ac

ystyr "Rhondda Cynon Taf" ("Rhondda Cynon Taf") yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

## Cymhwysos

3. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i'r Pwyllgor, i'r Cyngorau Cyfansoddol ac i Rhondda Cynon Taf am y flwyddyn ariannol yn cychwyn ar 1 Ebrill 2003.

## Ardollau a amnewidiwyd

4.-(1) Er gwaethaf rheoliad 8 o'r Prif Reoliadau, awdurdodir y Pwyllgor gan y Rheoliadau hyn i gyflwyno:

- (a) ardollau wedi'u hamnewid (yr ardollau newydd) i'r Cyngorau Cyfansoddol i gymryd lle'r ardollau hymny a gyflwynwyd ganddo ar 11 Chwefror 2003 (yr hen ardollau); a
- (b) ardoll wedi'i hamnewid am ddim punnoedd i Rhondda Cynon Taf i gymryd lle'r ardoll a gyflwynwyd ar 11 Chwefror 2003;

erbyn 14 Chwefror 2004 fan bellaf i alluogi'r Pwyllgor, y Cyngorau Cyfansoddol a Rhondda Cynon Taf i gydymffurfio â'r Gorchymyn.

(2) Os bydd y Pwyllgor yn cyflwyno ardollau newydd yn unol â'r Rheoliadau hyn, rhaid i unrhyw symiau a dalwyd iddo mewn perthynas â'r hen ardollau gael eu trin fel petaent wedi'u talu mewn perthynas â'r ardollau newydd.

5. Dirymir Rheoliadau Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru (Ardollau) 2001(b).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(c)

26 Tachwedd 2003

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

"the Principal Regulations" ("y *Prif Reoliadau*") means the Levy Bodies (General) Regulations 1992(a);

"Rhondda Cynon Taf" ("Rhondda Cynon Taf") means Rhondda Cynon Taf County Borough Council.

## Application

3. These Regulations apply to the Committee, the Constituent Councils and Rhondda Cynon Taf for the financial year commencing 1st April 2003.

## Substitute Levies

4.-(1) Notwithstanding regulation 8 of the Principal Regulations, the Committee is authorised by these Regulations to issue:

- (a) substitute levies (the new levies) to the Constituent Councils to replace those levies issued by it on 11th February 2003 (the old levies); and
- (b) a substitute levy for nil pounds to Rhondda Cynon Taf to replace the levy issued on 11th February 2003;

no later than 14th February 2004 to enable the Committee, the Constituent Councils and Rhondda Cynon Taf to comply with the Order.

(2) If the Committee issues new levies in accordance with these Regulations, any sums paid to it by reference to the old levies must be treated as paid in respect of the new levies.

5. The South Wales Sea Fisheries Committee (Levies) Regulations 2001(b) are revoked.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(c)

26th November 2003

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1996 p.38.

(b) 2001/3811 (Cy.316).

(c) 1998 p.38.

(a) S.I. 1992/2903.

(b) S.I. 2001/3811 (W.316).

(c) 1998 c.38.

---

OFFERYNNAU STATUDOL

---

**2003 Rhif 3072 (Cy.294)**

**LLYWODRAETH LEOL,  
CYMRU**

Rheoliadau Pwyllgor Pysgodfeydd  
Môr De Cymru (Ardollau)  
2003

---

STATUTORY INSTRUMENTS

---

**2003 No. 3072 (W.294)**

**LOCAL GOVERNMENT,  
WALES**

The South Wales Sea Fisheries  
Committee (Levies) Regulations  
2003

© Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

**£1.75**

W188/12/03

ON

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

